PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk/cefnogwyr



2010/11

# Adroddiad Rhoi Blynyddol a'r Gronfa Flynyddol

## Gwneud gwahaniaeth

3158_AberUni_AnnualFundReport_Welsh_FIN.indd 1 05/08/2011 12:50

# Cefnogwyr Aber yn **arwain y ffordd** yng Nghymru






Ym mis Mawrth 2011 cyhoeddwyd Arolwg Ross-CASE am 2009-10. Adroddai ar godi arian yn y sector Addysg Uwch yn y DU, a dangoswyd mai alumni Aber oedd **61% o'r cyn-fyfyrwyr a oedd yn rhoi i brifysgolion yng Nghymru.** Mae hyn yn gyfradd sydd bump gwaith yn fwy na'r cyfartaledd yng Nghymru, a dim ond 10 Prifysgol trwy Gymru a Lloegr a gafodd gyfradd uwch o ran rhoi. Hefyd, mae'r £250,000 a godwyd gan gefnogwyr Aber i'r Gronfa Flynyddol y flwyddyn honno, yn **72% o holl dderbyniadau i Gronfa Flynyddol yng Nghymru yn 2009/10.**

**Mae Prifysgol Aberystwyth yn hynod o falch o'r cyfranwyr, ac yn ddiolchgar iawn, i bawb sydd wedi rhoi cefnogaeth mor hael i'n gwaith, sydd wedi arwain at y llwyddiant rhagorol hwn, ac sy'n parhau i gyfrannu er mwyn cefnogi israddedig ac uwchraddedigion presennol Aber.**

“Roedd fy amser yn Aber, i mi, yn wirioneddol drawsnewidiol. Rwy'n cofio'n glir cyrraedd Pantycelyn ar fy niwrnod cyntaf a'r ymdeimlad o gyffro a deimlwn am y posibilrwydd o ddechrau bant – a harddwch Aber yn haf bach Mihangel 1972. Roedd popeth yn newydd. Roeddwn yn annibynnol. Roeddwn yn byw oddi cartref. Gallwn ailddyfeisio fy hun. Roeddwn yn fyfyriwr israddedig! Mewn dim o dro, roedd Aber yn gartref i mi. Mae gen i ddyled o ddiolch i'r Coleg a'r lle. Os gall ychydig o gefnogaeth gen i helpu eraill i deimlo rhywbeth o'r ysbryd Aber y teimlais i, yna mae hynny'n beth da.”

**Robert Smyth**
BSc Economeg 1975

“Fel cynifer o gyn-fyfyrwyr, roeddwn wrth fy modd efo fy amser yn Aber ac rwy'n dal i fod mewn cyswllt â ffrindiau a wnes yn ystod y dyddiau hynny. Rwy'n rhoi i'r Gronfa Flynyddol gan nad oeddwn yn talu am fy addysg, ac nid wyf yn hapus fod pobl ifanc heddiw yn gorfod talu cymaint amdano.”

**Linda Whitlock**
BA Hanes 1978

## Ymunwch â Chefnogwyr Aber

Os hoffech fod yn rhan o'r grŵp o gyn-fyfyrwyr a ffrindiau sy'n gwneud gwahaniaeth yn Aber, drwy gyfrannu rhodd neu gymryd rhan fel mentor, ewch i:
**www.aber.ac.uk /cefnogwyr**

Clawr blaen: Myfyrwyr yn mwynhau seddi a photiau coed ychwanegol ar y Piazza (Prosiect amgylcheddol y Gronfa Flynyddol, 09-10)



3158_AberUni_AnnualFundReport_Welsh_FIN.indd 2 05/08/2011 12:50

# Mae Alumni heddiw yn falch i gynnal y traddodiad o roi i Aber

Tanysgrifiadau cyhoeddus a phreifat ariennir creu Aber, brifysgol gyntaf yng Nghymru. Ers hynny, mae cefnogwyr wedi parhau i wneud argraff sylweddol ar dirwedd Aber, o cymorth i ariannu'r gwaith o adeiladu Adeilad Edward Davies, sy'n gartref i'r Ysgol Gelf, at y rhodd o'r tir lle saif campws Penglais bellach.

Mae rhoddwyr hefyd wedi bod yn allweddol wrth sefydlu rhai o'n hadrannau mwyaf adnabyddus; y Gadair gyntaf Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn Aber yn 1919 yn ogystal ag adeilad modern iddo yn 2006. Dros y blynyddoedd, mae rhoddwyr hefyd wedi cyllido ystod eang o ysgoloriaethau, bwrsariaethau a dyfarniadau sy'n hwyluso mynediad i'r Brifysgol a gwobrwyo rhagoriaeth ein myfyrwyr. Mae'r Brifysgol hefyd yn parhau i ddenu rhoddion rheolaidd eraill, er enghraifft i'r Gronfa Gyffredinol sy'n adnodd anghyfyngedig gwerthfawr, y gellir eu defnyddio'n eang, o brynu llyfrau i gynorthwyo gwaith adeiladu.

## Y Gronfa Flynyddol

**Y Gronfa Flynyddol yw conglfaen ymgyrch codi arian Aber. Ers ei lansio yn 2009, mae bron i 2500 o gyn-fyfyrwyr a ffrindiau wedi cadarnhau'r traddodiad o roi i Aber drwy gefnogi prosiectau bach sydd yn weladwy'n gwella bywydau a phrofiadau addysgol myfyrwyr Aber. Yn ystod 2010-11, cafodd bron i £200,000 ei roi i brosiectau'r Gronfa Flynyddol, gan gynnwys y Gronfa Caledi sydd ar gael yn gyffredinol i bawb, Ysgoloriaethau PhD, a Rhwydwaith Mentora i wella profiadau gwaith a chyflogadwyedd myfyrwyr presennol a graddedigion diweddar.**

Daw'r rhan fwyaf o roddion y Gronfa Flynyddol o ganlyniad i'n hymgyrchoedd teleffon. Ddwywaith y flwyddyn, ym mis Tachwedd a mis Chwefror, mae grŵp o fyfyrwyr presennol yn gwneud galwadau i gyn-fyfyrwyr i rannu newyddion am y Brifysgol ac i ofyn am gymorth. Profodd y rhain yn hynod o boblogaidd gydag Alumni a myfyrwyr. I'r myfyrwyr, mae'n gyfle gwych i siarad â chyn-fyfyrwyr am fywyd ers gadael y Brifysgol ac i rannu profiadau am Aber. I'r cyn-fyfyrwyr mae'n gyfle amhrisiadwy i glywed am fywyd yn y Brifysgol heddiw, gweld beth allant ei wneud i helpu ac i ofyn cwestiynau am y Gronfa Flynyddol a'r Brifysgol yn gyffredinol. Mae hefyd yn ffordd wych i roi gwybod i'r rhoddwyr am y ffyrdd y mae myfyrwyr yn elwa o'u cefnogaeth ariannol.

## Derbyniad i Roddwyr: Dathlu rhoi

**Eleni, rydym eisiau dod â'n cefnogwyr at ei gilydd i ddangos yr effaith y mae eu cyfraniad wedi ei gael ar draws y campws a thu hwnt.**

Bydd derbyniad, a gynhelir gan yr Is-Ganghellor newydd, April McMahon, yn cael ei gynnal am 12pm ddydd Sadwrn 3 Medi, yn y Ganolfan Ddelweddu ar Gampws Penglais. Mae'r digwyddiad yn agored i roddwyr, cefnogwyr eraill ac unrhyw un sy'n ystyried gwneud rhodd i'r Brifysgol yn y dyfodol. Bydd yn cael ei fynychu gan nifer o bobl sy'n derbyn cymorth, myfyrwyr ac academyddion, sydd wedi'u gwneud yn bosib gan roddwyr.

I gofrestru eich lle yn y derbyniad, cysylltwch â alumni@aber.ac.uk neu ffonio 01970 621568.

# **Ffurfio'r** dyfodol

Yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, derbyniodd y Brifysgol nifer o roddion sylweddol gan roddwyr unigol ac ymddiriedolaethau at achosion penodol.

Yn ystod 2010-11, cafodd rhoddion eu gwneud i **Gronfa Ysgoloriaeth JDR a Gwyneth Thomas,** tuag at y **Llyfrgell Gwleidyddiaeth,** i **Wobr Goffa Richard Ithell** ac i **Ganolfan Chwaraeon y Brifysgol.** Derbyniodd y Brifysgol rhodd sylweddol gan **Sefydliad Ysgoloriaeth Fergus Johnston** i sefydlu ysgoloriaeth PhD yn y Dyniaethau. Cafodd y gefnogaeth hon i gyd werth ychwanegol gan gynllun Cyllido Cyfatebol CCAUC, sy'n cyfrannu arian cyfatebol trwy roi hanner can ceiniog am bob punt.

> "Mae Aber wastad wedi bod yn rhan o fy mywyd. Astudiodd fy rhieni, fy merch a fi yma. Nawr rwy'n falch i allu gwneud cyfraniad."
>
> **Ann Robertson**
> BSc Ffiseg 1957

Ym mis Ebrill 2011, gwnaeth cyn-fyfyriwr Aber Ann Robertson rodd hael i'r Brifysgol a oedd yn caniatáu i'r clwb Hwylio brynu cwch modur yn ogystal â rhoi cyfraniad sylweddol i'r Gronfa Flynyddol yn gyffredinol. Yn gyn-diwtor cyfrifiadureg, roedd Ann wedi cwrdd â'i gŵr, David, yn y Clwb Hwylio yn y Brifysgol. Mae'r Clwb Hwylio yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth Ann, ac mi fydd y llong yn cael ei lansio yn ystod wythnos chwaraeon ym mis Medi 2011.

Os ydych yn ystyried gwneud anrheg benodol neu arbennig i'r Brifysgol ac yr hoffech drafod eich opsiynau yn gyfrinachol, cysylltwch â ni ar 01970 621568 neu e-bostiwch datblygu@aber.ac.uk



**Bob blwyddyn, mae nifer o ysgoloriaethau a gwobrau'n cael eu dyfarnu i'n myfyrwyr, a sefydlwyd drwy gymynroddion a adawyd i'r Brifysgol.**

Gwnaeth rhodd o £20,000 gan Mrs Elizabeth Davies sefydlu **Gwobr Ymchwil RM Davies,** sef gwobr flynyddol er cof am ei diweddar ŵr, Rhisiart Morgan Davies, a fu'n Athro Ffiseg ar un adeg. Mae'r wobr yn ychwanegu at grant ymchwil arferol myfyriwr uwchraddedig yn yr Adran Ffiseg.

Yn 2010, aeth y wobr i fyfyriwr uwchraddedig **Sebastian Wildfeuer:** "Mae gwobr R M Davies yn gyfle gwych i gyflwyno fy ymchwil mewn ffordd ddiddorol. Gwnaeth arian y wobr helpu i mi dalu i fynd i gynhadledd yn Nenmarc a oedd yn gyfle mawr i mi gyflwyno gwaith ymchwil i gynulleidfa o arbenigwyr byd blaenllaw yn y pwnc. Rydw i'n ddiolchgar iawn am y wobr sydd wedi bod o gymorth mawr i mi."

**Mae'r Brifysgol wedi cyhoeddi canllaw newydd ynghylch gadael cymynrodd i Aber. Os oes gennych ddiddordeb cael gwybod sut y gallech gefnogi cenedlaethau'r dyfodol yn Aber gan adael rhodd yn eich Ewyllys, gallwch ofyn am gopi o'r llyfryn drwy gysylltu â ni ar 01970 621568, neu gallwch ei weld ar-lein yn www.aber.ac.uk/cefnogwyr.**



3158_AberUni_AnnualFundReport_Welsh_FIN.indd 4 05/08/2011 12:50

# Ysgoloriaethau **PhD**

**Trwy ysgoloriaethau uwchraddedig, gallwn ddenu unigolion eithriadol i fynd i'r afael â materion byd-eang. Mae hefyd yn hanfodol bod genym adnoddau i ddarparu cyfleoedd uwchraddedig, fel y gallwn barhau record a chyfraniad rhagorol Aber mewn ymchwil.** Bob blwyddyn ers 2009, mae'r Gronfa Flynyddol wedi gallu ariannu **Ysgoloriaeth PhD** tair blynedd llawn i gefnogi myfyriwr uwchraddedig mewn Adran academaidd yn Aber. Mae'r ysgoloriaeth yn cynnwys ffioedd llawn, costau byw a theithio.



Yn 2009-10 codwyd arian i gefnogi Ysgoloriaeth Gwleidyddiaeth Amgylcheddol yn yr adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol flaenllaw. Ar ôl cwblhau blwyddyn ysgoloriaeth PhD gyntaf y Gronfa Flynyddol, ysgrifennodd Katja Daniels am ei hamser yn Aber, ei gwaith ymchwil, ac am y gwahaniaeth mae cael PhD a gyllidir wedi'i wneud i'w bywyd. Yn fyfyrwraig o'r radd flaenaf, mae gwaith Katja yn dangos her sicrhau hawliau dynol democrataidd ledled y byd.

"Yn fyfyriwr israddedig graddiais mewn Cysylltiadau Rhyngwladol ym Mhrifysgol Exeter, gan ennill y canlyniadau uchaf yn fy mhwnc. Es ymlaen i gwblhau MA ym maes Theori Cysylltiadau Rhyngwladol (ynghyd â hyfforddiant ymchwil) yn Aberystwyth. Ar ôl hynny, treuliais y flwyddyn ddiwethaf yn gweithio yn Sefydliad Heddwch Ynysoedd Åland yn y Ffindir ac yn gwneud cyfnod o hyfforddiant gydag elusen canser yn Beijing."

"Ar gyfer fy PhD rwy'n edrych ar yr anhawsterau a wynebir gan wledydd sy'n datblgyu wrth gymryd camau i amddiffyn eu hamgylcheddau, ac ar fframwaith cyfreithiol a gwleidyddol globaleiddio a'i effaith amgylcheddol."

"Ers i mi gyrraedd nôl i Aber, rwyf yn gwerthfawrogi'r ffaith mod i'n gallu mynd i dri neu bedwar grŵp darllen neu seminar ymchwil yr wythnos ac yn dal i'w chael yn anodd dewis pa un i fynd iddo, ac rwyf wedi gwerthfawrogi'n fawr y cyfle i roi cynnig ar addysgu'r cwrs israddedig rhagarweiniol mewn GR. O ran fy ymchwil ar hyn o bryd rwy'n gweithio trwy gorff o lenyddiaeth sy'n edrych ar sut y mae diwygiadau neoryddfrydol y ddegawd diwethaf yn cael eu 'cloi i mewn' trwy ddulliau cyfreithiol a sefydliadol."

"Rwy'n ddiolchgar iawn am y grant hwn ac yn edrych ymlaen yn frwd i ddod nôl i Aber i astudio pwnc y credaf sy'n bwysig nid yn unig o safbwynt amgylcheddol ond hefyd am fod cyfyngiadau o'r fath ar hawl gwlad i reoli yn gallu tanseilio hawliau democrataidd sylfaenol."

**Diolch i haelioni ein cyn-fyfyrwyr a ffrindiau, mae ymgyrch 2010-11 y Gronfa Flynyddol wedi cyllido'n llwyddiannus Ysgoloriaeth PhD yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes, Adran a ddisgrifir yn un arweiniol ar lefel 'byd-eang' yn yr Asesiad Ymchwil diweddaraf yn 2008. Gradd PhD ym maes rheolaeth ryngwladol fydd hon, yn enwedig rhyngweithio cysylltiadau a busnes rhyngwladol.**



3158_AberUni_AnnualFundReport_Welsh_FIN.indd 5 05/08/2011 12:50

# **Cymorth** i Fyfyrwyr







**Mae Aber yn ymrwymedig i annog myfyrwyr dawnus o unrhyw gefndir cymdeithasol.** Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn cynnig mwy o gefnogaeth i fyfyrwyr heddiw ac yn gallu dangos i ymgeiswyr bod, os oes ei angen, strwythur cymorth yn ei le. Ers 2009, mae'r Gronfa Flynyddol wedi codi arian i brosiectau sy'n rhoi cyngor ariannol adeiladol yn ogystal ag arian ychwanegol i helpu mewn achosion o angen gwirioneddol.

Trwy gyfraniadau rhoddwyr 2010-11 mae swydd Cynghorwr Gyllid Myfyrwyr (Meddyg Arian) wedi ei chreu, i gynghori a chynorthwyo myfyrwyr sydd â phroblemau ariannol annisgwyl, yn enwedig i ddysgu sgiliau hanfodol rheoli arian yn ogystal â dosbarthu arian argyfwng. Mae profiad wedi dangos bod 50% o ddefnyddwyr cymorth cyllid i fyfyrwyr yn mynd ymlaen i wrthod cymorth pellach ar ôl eu cyfarfod cyntaf gydag ymgynghorydd.

**Bu Nia Jones, Cynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol,** yn egluro sut mae'r strwythur cymorth yn gweithredu. "Mae'r Cynghorydd wedi cysylltu â nifer fawr o fyfyrwyr, gan roi cyngor ac arweiniad ar gyllidebu, rheoli dyledion ac ati a sicrhau bod myfyrwyr wedi cael yr holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo. Ar gyfartaledd, mae'r Cynghorydd Myfyrwyr yn cyfarfod â 12 o fyfyrwyr y dydd yn y cyfnodau prysur, ac mae hyn wedi bod yn wasanaeth amhrisiadwy, sydd wedi golygu ein bod wedi gallu cadw myfyrwyr a allai fel arall fod wedi gadael oherwydd cyfyngiadau ariannol."

Mae'r Gronfa Galedi Flynyddol (a sefydlwyd ym 2009-10) hefyd wedi galluogi Aber i gefnogi myfyrwyr trwy ddarparu cymorth drwy gyfrwng cyllid uniongyrchol. "Sefydlom gynllun talebau bwyd y llynedd i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael cymorth ar unwaith, tra bod cynlluniau ariannol tymor hir yn cael eu rhoi yn eu lle." Cafodd tri myfyriwr grant i wneud yn iawn am eu colled pan gawsant eu twyllo gyda'u llety; derbyniodd myfyriwr arall daliad i dalu cost dychwelyd adref o flwyddyn dramor pan oedd rhiant yn sâl, a chefnogwyd myfyriwr a gollodd bopeth gan na fyddai'i bentref mwyach yn gallu ei ariannu oherwydd y llifogydd ym Mhacistan yn 2010."

Ar ran Prifysgol Aberystwyth, a'r cannoedd o fyfyrwyr sydd wedi cael eu cefnogi, hoffem ddiolch i bob un o'r cyfranwyr a sicrhaodd bod y gwasanaeth hwn ar gael i bob un o'n myfyrwyr."

Gallwch gefnogi'r **Gronfa Galedi** drwy gyfrannu drwy ein gwefan: www.aber.ac.uk /cefnogwyr. I gael rhagor o wybodaeth am wasanaethau Cefnogi Myfyrwyr yn Aber, ewch i: www.aber.ac.uk /cy/student-support



3158_AberUni_AnnualFundReport_Welsh_FIN.indd 6 05/08/2011 12:50



# Cefnogi Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

Mewn marchnad gyflogaeth sy'n gynyddol gystadleuol, mae ar raddedigion angen eu paratoi'n dda ar gyfer y gweithle, ac mae profiad gwaith a rhaglenni mentora wedi eu profi'n fuddiol. Mae astudiaethau gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) wedi dangos cysylltiad clir rhwng profiad gwaith a wnaed wrth astudio am radd a chyflogadwyedd yn fuan ar ôl graddio.

Diolch i haelioni rhoddwyr i Gronfa Flynyddol2010-11, mae arian yn ei le i sefydlu **Rhwydwaith Mentora Alumni** yn Aber. Dyma Emma Harrison, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Gyrfaoedd, yn egluro amcanion a manteision y gwasanaeth:

"Mewn marchnad gyflogaeth sy'n gynyddol gystadleuol, nid oes modd curo cyngor personol gan bobl sy'n llwyddiannus yn eu dewis feysydd. Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn awr yn gweithio ar brosiect i roi myfyrwyr presennol mewn cysylltiad â'u rhagflaenwyr – ac mae'n ymestyn y cysyniad gwreiddiol i ganfod a hyrwyddo cyfleoedd profiad gwaith gyda'r unigolion hynny. Elfen allweddol y prosiect yw sicrhau bod cyn-fyfyrwyr a myfyrwyr fel ei gilydd yn glir ynghylch yr hyn y gallant ei gynnig a'r hyn y gallant ei ddisgwyl, ond mae hefyd yn hanfodol ei bod yn gynaliadwy yn y dyfodol. Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd wedi edrych ar brosiectau a sefydlwyd mewn prifysgolion eraill ac yn gweithio gyda Gwasanaethau Gwybodaeth i roi systemau ar waith a fydd yn cefnogi pawb sy'n cymryd rhan."

Os hoffech fynegi eich diddordeb i fod yn fentor neu i gynnig lleoliadau profiad gwaith neu ddulliau eraill o gymorth, cysylltwch â ni ar development@aber.ac.uk neu llenwch y ffurflen ar www.aber.ac.uk/info/alumni_emp_c




3158_AberUni_AnnualFundReport_Welsh_FIN.indd 7 05/08/2011 12:50

# Buddsoddi mewn **technoleg hygyrch**







Gydag adnoddau academaidd ar-lein yn dod mor hygyrch ac eang a'r dechnoleg ar gyfer gwneud hynny yn parhau i wella, ni fu erioed amser mwy cyffrous i ddechrau digideiddio eitemau o gasgliadau arbennig Aber. Mae hyn yn golygu gosod delweddau ar-lein, cam a fydd yn gwella'n sylweddol hygyrchedd deunyddiau sydd fel arfer yn cael eu cadw mewn lleoliadau cyfyngedig neu mewn man lle rheolir y lleithder.

Diolch i haelioni rhoddwyr i Gronfa Flynyddol 2010-11, mae gall Gwasanaethau Gwybodaeth Aber ddechrau **digideiddio** eu harchif a'r casgliadau llyfrau prin. Mae Bill Hines, Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Llyfrgell, yn egluro sut y bydd y rhaglen flaengar hon yn gwella hygyrchedd ac yn annog ymchwil newydd a fydd yn helpu creu darlun parhaol o Aber.



"Rydym wrthi'n cychwyn ar ymarferiad ddigido peilot. Fel blaenoriaeth, rydym am gynnwys rhan o'r Casgliad ffotograffau sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Brifysgol dros y 140 mlynedd diwethaf. Rydym yn rheolaidd yn derbyn ceisiadau oddi wrth y cyfryngau ac ymchwilwyr am wybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgaredd yn y gorffennol, a bydd yn ddefnyddiol iawn gallu nodi a manteisio ar ein casgliadau yn fwy effeithiol. Mewn rhai achosion mae gennym ffotograffau na wyddom yn iawn beth ydynt a gobeithio y bydd eu presenoldeb ar y we yn sbarduno atgofion ymhlith ein alumni. O ran rhannau eraill o'n casgliadau o lyfrau prin, byddwn yn ceisio cynnwys delweddau enghreifftiol o rai eitemau arbennig o leiaf er mwyn hyrwyddo defnydd mwy ohonynt. Un enghraifft bwysig o'n casgliad yw'r argraffiad 1747 Warburton o Shakespeare a ddefnyddir gan Dr Samuel Johnson wrth lunio ei eiriadur."



3158_AberUni_AnnualFundReport_Welsh_FIN.indd 8 05/08/2011 12:51